O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 594(Cy. 87)

DATGANOLI, CYMRU

LLWON, CYMRU

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (O.S. 2007/2044 (Cy. 169)), sy'n rhagnodi ffurfiau Cymraeg y llwon y mae'n ofynnol i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac aelodau penodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd a'r cadarnhadau y mae'n ofynnol iddynt eu rhoi o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("Deddf 2006").

Mae'r gorchymyn hwn yn rhagnodi ffurf Gymraeg ddiwygiedig y cadarnhad teyrngarwch y caiff aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei roi o dan adran 23(1) o Ddeddf 2006.

Mae Deddf 2006 yn darparu mai'r ffurfiau a nodir yn Neddf Llwon Addewidiol 1868 (p.72) ac yn Neddf Llwon 1978 (p.19) yw ffurfiau Saesneg y llwon a'r cadarnhadau y mae'n ofynnol i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac aelodau penodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd a'u rhoi.

Yn rhinwedd adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38) ("Deddf 1993"), pan fo un o Ddeddfau Senedd y DU yn pennu ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio at ddibenion swyddogol neu gyhoeddus penodol, caiff y Gweinidog priodol o blith Gweinidogion y Goron wneud gorchymyn sy'n rhagnodi ffurf ar eiriau yn Gymraeg sydd i'w

defnyddio mewn amgylchiadau a bennir yn y gorchymyn.

Rhoddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2, Atodlen 1 bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) i wneud gorchmynion o dan adran 26(2) o Ddeddf 1993. Trosglwyddwyd y pŵer wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf 2006.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 594(Cy. 87)

DATGANOLI, CYMRU

LLWON, CYMRU

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011

Gwnaed *1 Mawrth 2011*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *3 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *30 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**).

Enwi, dehongli a chychwyn

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) (Diwygio) 2011.

(2) Yn y gorchymyn hwn ystyr "y gorchymyn" (*"the order"*) yw Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a

(**1**) 1993 p. 38.

(**2**) Cafwyd cyfarwyddyd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2(b), Atodlen 1, fod y pŵer yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i'w arfer, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) yn gydredol ag unrhyw un o Weinidogion y Goron yr oedd y pŵer yn arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd y pŵer oddi wrth y Cynulliad hwnnw i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi.

Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (**1**).

(3) Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 30 Mawrth 2011.

Ffurf Gymraeg ddiwygiedig cadarnhad teyrngarwch y caiff aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei roi

2. Yn erthygl 6(2) o'r gorchymyn, yn lle'r ffurf Gymraeg rhodder—

> "Yr wyf i, ……, yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y byddaf yn ffyddlon ac yn wir deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith."

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, un o Weinidogion Cymru

1 Mawrth 2011

(**1**) O.S. 2007/2044 (Cy. 169).